

Adroddiad Ymgynghori Ysgolion yr 21ain Ganrif

YSGOL GYMRAEG CWM GWYDDON



Cynnig:

Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn ysgol bwrpasol darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w lleoli ar safle gwag hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn

Y Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: 14 Medi 2020 – 26 Hydref 2020

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.



Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif
21st Century Schools and Colleges



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Richard Edmunds

Cyfarwyddwr
Corfforaethol Addysg a
Gwasanaethau
Corfforaethol

RHAGAIR

*"Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau'r
canlyniadau gorau i BOB un o'n
plant"*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous ond heriol o welliannau a newidiadau. Mae gennym uchelgeisiau beiddgar i ddarparu'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i bob dysgwr ac rydym yn ymrwymedig i wneud hyn drwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws ein hysgolion fel rhan o'n Strategaeth 'Uchelgeisiau a Rennir'.

Rydym wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau pobl ifanc ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, gan ymgorffori barn holistaidd am addysg. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 'Gwella cyfleoedd addysg i bawb' fel ei Amcan Lles cyntaf ac mae wedi ymrwymo i raglen fuddsoddi uchelgeisiol Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, mae Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif yn cefnogi buddsoddiad mewn addysg yn y Fwrdeistref Sirol. Ein huchelgais yw gwella cyflwr adeiladau ysgolion a galluogi'r defnydd cymunedol mwyaf.

Mae ein cynigion presennol yn cefnogi ein hymrwymiad i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldeb mewn cyflawniad ar draws grwpiau; i ddeall anghenion plant sy'n fwy agored i niwed; hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi'r rhai na allant gael mynediad at lwybrau dysgu traddodiadol, er mwyn gwneud yn siŵr y bydd pawb yn elwa ar gyfleoedd dysgu a diwylliannol cyfoethog. Mae'r egwyddorion hyn yn helpu i lywio ein penderfyniadau a blaenoriaethu prosiectau.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae pob rhanddeiliad wedi cael cyfle i gyfranogi a gwneud sylwadau.

Cynhyrchwyd yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn i grynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys adborth gan Estyn. Mae'n ceisio darparu dogfen gytbwys ac agored i gefnogi'r Cabinet i wneud penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau neu beidio bwrw ymlaen o gwbl.

Rwy'n gobeithio y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i chi fel adlewyrchiad o'r gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yma ac yn rhoi syniad i chi o'n taith, siapio ein dulliau cyflenwi a sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu yn ganolog yn ein cymunedau.

CYNNWYS	
Cyflwyniad	
➤ Crynodeb Gweithredol	Tud.4
➤ Goblygiadau Statudol	Tud.4
➤ Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori	Tud.5
➤ Beth yw Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21 ^{ain} Ganrif?	Tud.5
Cynnig	
➤ Beth ydym ni'n cynnig ei wneud?	Tud.6
➤ Beth sy'n llywio'r cynnig hwn?	Tud.7
➤ Gwerthusiad o'r Opsiynau	Tud.7
➤ Manteision ac Anfanteision	Tud.9
Y Broses Ymgynghori	
➤ Y Broses Ymgynghori	Tud.9
➤ Goblygiadau COVID19	Tud.9
➤ Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	Tud.10
➤ Gwybodaeth am yr Ymgynghori	Tud.11
➤ Dulliau Ymateb	Tud.13
Ymatebion i'r Ymgynghori	
➤ Ymatebion i'r Ymgynghori	Tud.13
➤ Ymateb Craffu ar Addysg	Tud.18
➤ Ymateb Estyn	Tud.18
➤ Egluro'r Ymgynghori	Tud.19
○ Meysydd o Bryder	
○ Meysydd o Gytundeb	
➤ Dewisiadau Amgen Rhesymol a Nodwyd	Tud.24
Llais y Dysgwr	
➤ Fersiwn Cryno – Plant a Phobl Ifanc	Tud.27
➤ Fideo'r Ymgynghori	Tud.28
➤ Ymgysylltiad Disgyblion / Cyngor Ysgol	Tud.28
○ Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni	
○ Ysgolion eraill y nodwyd eu bod wedi'u heffeithio	
Ystyriaethau Eraill	
➤ Strategaethau Lleol a Chenedlaethol	Tud.31
Camau Nesaf	
➤ Argymhelliad	Tud.32
➤ Gwneud Penderfyniadau	Tud.32
➤ Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth	Tud.32
Gwybodaeth Ategol	
➤ Atodiad 1: Ffurflen Adborth i'r Ymgynghori / Cwestiynau Cyffredin / Fideo	Tud.33
➤ Atodiad 2: Ymateb Estyn (Fersiwn Llawn)	Tud.33
➤ Atodiad 3: Ymatebion i'r Ymgynghori	Tud.35



Cyflwyniad

Crynodeb Gweithredol

Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da a'u bod yn addas ar gyfer darparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio ysgolion, eu hatgyweirio, adnewyddu, ehangu neu eu hail-adeiladu'n rhannol i gyflawni'r safonau sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion presennol yn y sefyllfa gywir ac mewn achosion o'r fath gallwn gynnig ysgolion newydd neu newidiadau i ysgolion presennol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu er mwyn creu ysgolion yr 21^{ain} ganrif sy'n addas i'r diben a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Nodwyd Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon fel un o'r prosiectau blaenoriaeth cyntaf yn rhaglen Band B Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Ar gyfer cynigion sy'n gysylltiedig ag ysgolion, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen eu dilyn. Cynnal ymarfer ymgynghori yw un o'r camau cychwynnol yn natblygiad unrhyw gais ac mae'n ddarostyngedig i broses graffu gan Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth y Cabinet. O'r 14 Medi 2020 hyd at y 26 Hydref 2020, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori. Diben yr ymgynghori oedd casglu safbwyntiau ar y cynnig i gefnogi a buddsoddi yn adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

Yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn yw'r dull a ragnodwyd gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 er mwyn myfyrio, adolygu ac asesu er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Cabinet i lunio penderfyniad gwybodus i fwrw ymlaen â'r cynnig i'r cam nesaf, diwygio'r cynnig gan ystyried gwybodaeth bellach sydd wedi dod i law drwy'r broses ymgynghori neu gau'r cynnig hwn heb gymryd camau pellach.

Mae'r Adroddiad wedi'i rannu'n adrannau gwahanol, gyda'r nod o:

- Amlinellu'r prosesau ymgynghori a gynhaliwyd
- Darparu eglurhad mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddarparwyd a'r ymgysylltiad ag ymgynghoreion
- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion
- Cyflwyno ymateb llawn Estyn i'r ymgynghori
- Ymateb i faterion a godwyd drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol

Goblygiadau Statudol

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion [Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2013](#) a [Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018](#).

Cyhoeddir yr adroddiad ar yr Ymgynghori ar wefan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Caerffili ac mae copïau papur ar gael ar gais. Cyhoeddir yr holl wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, cynhyrchwyd crynodeb sy'n addas i blant er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch i unrhyw blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion.

Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyflawni dyletswydd y Cyngor yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Roedd y cyfnod ymgynghori'n cyflwyno cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, holi cwestiynau a rhoi sylwadau. Ni chafodd unrhyw ymatebion negyddol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig ond fel sylwadau negyddol.

Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau i gynllun.

Mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghori yn rhoi amlinelliad o'r prosesau a ddilynwyd, mae'n darparu eglurder ar y materion a'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymgynghoreion, sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig yn cael eu mynegi ac, yn y pen draw, mae'n darparu sydd ei hangen ar y Cabinet i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- Bwrw ymlaen â'r cynnig
- Gwneud newidiadau i'r cynnig
- Peidio bwrw ymlaen â'r cynnig

Mae manylion llawn y broses o wneud y penderfyniad a chamau'r cynnig, fel y'u hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori gychwynnol ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor gyda chopïau papur ar gael ar gais.

Beth yw Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif?

Mae rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol fawr a hirdymor. Caiff ei hariannu'n ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ac mae'n ceisio creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru.

Cynhaliwyd rhan gyntaf y rhaglen (Band A) o 2014 i fis Mawrth 2019.

Mae Caerffili wedi elwa'n fawr ar fuddsoddiadau yn rhaglen gychwynnol "Band A" Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gyda thua £56.5 miliwn mewn ysgolion at ddefnydd addysgol a chymunedol.

Defnyddiwyd y cyllid Band A yng Nghaerffili i gyflenwi :

 Delwedd o Ysgol Uwchradd Islwyn	Enw'r Prosiect	Buddsoddiad Band A
	✓ Ysgol Uwchradd Islwyn	£22.6 miliwn
	✓ Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Campws Y Gwyndy	£19.2 miliwn
	✓ Ysgol Idris Davies 3-18	£8 miliwn
	✓ Estyniad Ysgol Trecelyn	£2.6 miliwn
	✓ Gwelliannau Ysgol Gyfun Coed Duon	£2 filiwn
	✓ Cae 3G Ysgol Gyfun Coed Duon	£865,000
	✓ Gwelliannau Ysgol Cae'r Drindod	£1.3 miliwn

Dechreuodd ail ran yr ariannu hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019, gyda'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Lleihau'r nifer o ysgolion sydd mewn cyflwr gwael
- Sicrhau bod gennym yr ysgolion o'r maint cywir yn y lleoliad cywir
- Darparu lleoedd digonol i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar [dudalennau gwe Ysgolion yr 21ain Ganrif](#)



Cynnig

Beth ydym ni'n cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig:

- o **Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn ysgol bwrpasol darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w lleoli ar safle gwag hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn (Cwmcarn, NP11 7NG) gyda dyddiad preswyllo disgwyliedig o fis Medi 2023**
- o Cynigir y bydd yr adeilad newydd yn ymgorffori cyfleuster cynradd gyda Gofal Plant, Canolfan Adnoddau Arbennig, Meithrinfa, Rising Threes a phrif ystafelloedd dosbarth yr ysgol, prif neuadd ymgynnull, gofod technoleg bwyd, llyfrgell a gofod TG
- o Bydd gan y safle a nodwyd ddigon o le i hwyluso adeilad newydd a fydd yn darparu lle ar gyfer oddeutu 420 o ddisgyblion ynghyd â 60 o leoedd meithrin ac 16 o leoedd Canolfan Adnoddau Arbennig ac yn sicrhau mynediad cyfartal trwy hyrwyddo a chefnogi datblygiad a darpariaeth addysg gynhwysol trwy ddarparu'r cwricwlwm llawn i ddisgyblion mewn amgylchedd dysgu modern, diogel ac ysbrydoledig
- o Bydd yr adeilad newydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif gan gynnwys gwell cyfleusterau TGCh, sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant yr holl ddisgyblion a gwella cyfleoedd dysgu gydol oes i aelodau'r gymuned er mwyn cryfhau a diogelu hyrwyddo'r iaith, diwylliant a threftadaeth Gymraeg ar draws Dwyrain Caerffili
- o Bydd gan yr adeilad newydd well ofod dysgu allanol sy'n cynnig ardaloedd chwarae allanol, ardal MUGA tarmacadam a mynediad i gae chwarae gwair. Bydd y defnydd o gyfleusterau chwaraeon hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer y gymuned ar adegau addas yn unol ag amserlen y cwricwlwm
- o Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried yr awydd i annog a hwyluso defnydd cymunedol o'r ased. Bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i alluogi 'parthau' diogel mewn rhannau o adeilad newydd yr ysgol, gan gynnwys y neuadd a gofod amlswyddogaeth sy'n cydymffurfio â'r ystafell ddosbarth y gellid ei addasu i'w ddefnyddi.

Beth sy'n llywio'r cynnig hwn?

Mae cynigion wedi cael eu blaenoriaethu ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys cyflwr adeiladu, tafluniad disgyblion a gyrwyr lleol a chenedlaethol, fodd bynnag, mae cyflenwi'r cwricwlwm a'r agenda Addysgol yn parhau i fod yn gwbl greiddiol.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, yn darparu cyfres o safonau ac yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i asesu'r galw am addysg cyfrwng Gymraeg yn yr ardal. Un o'r safonau allweddol yw gofyniad i ddatblygu strategaeth iaith Gymraeg 5 mlynedd, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg ac a fydd yn ein galluogi i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn nodi ymrwymiad Caerffili i Hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfleusterau addysgol deniadol o ansawdd. O fewn Cynllun Strategol y Gymraeg rydym yn ymdrechu i ysgogi'r galw am addysg gyfrwng Gymraeg, ac rydym yn gwybod bod hynny'n fwy cynaliadwy i deuluoedd os yw'r ddarpariaeth addysg yn cael ei hehangu yn unol â'r gofal plant sydd ar gael.

Rydym wedi nodi angen i fuddsoddi yn Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, gan ateb y galw cynyddol am addysg yn Gymraeg a datblygu cyfleusterau a rennir ac wedi'u cydleo. Y dyhead yma sy'n gyrru'r cynnig hwn.



Gwerthusiad o'r Opsiynau

Mae cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn hollbwysig i nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid byd addysg yng Nghymru a darparu canlyniadau addysgol gwell, gydag ymrwymiad i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldebau

mewn lefelau cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Mae gwerthusiad o'r opsiynau yn darparu cyfle i helpu cynghorau i wneud penderfyniad gwybodus ar sail tystiolaeth ar sut i gyflenwi gwasanaethau. Gwna hynny drwy ystyried manteision ac anfanteision cymharol nifer o fodelau cyflenwi gwahanol (gan gynnwys y ffordd bresennol o gyflenwi'r gwasanaeth).

Mae'r fethodoleg yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i roi ystyriaeth gymharol i'r pwyntiau canlynol:

- Buddioldeb – y graddau y mae pob opsiwn yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol rhanddeiliaid
- Hyfywedd – y graddau y mae pob opsiwn yn hyfyw ac yn gynaliadwy'n ariannol
- Ymarferoldeb – y graddau y gellir gweithredu pob opsiwn.

Fel rhan o'r cyflwyniad o'r cynnig presennol, cynhaliwyd gwerthusiad o'r opsiynau.

Roedd y cam gwerthuso opsiynau yn galluogi i wahanol fodelau cyflenwi gael eu harchwilio a'u gwerthuso yn erbyn set o feini prawf penodol, a fyddai'n aros at ddewis yr opsiwn a ffafrir.

Cafodd yr opsiynau canlynol eu hystyried a'u sgorio: -

Opsiwn	Disgrifiad
Opsiwn 1	Gwneud Dim
Opsiwn 2	Adnewyddu'r ysgol bresennol sydd eisoes wedi cyrraedd ei hyd oes disgwylidig o 60 mlynedd
Opsiwn 3	Adeiladu ysgol newydd o'r un maint ar y safle presennol
Opsiwn 4	Adeiladu ysgol newydd o'r un maint ar safle newydd gyda gofal plant
Opsiwn 5	Adeiladu ysgol newydd, fwy ar safle newydd gyda meithrinfa, gofal plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig

Darparwyd disgrifiad manwl o'r broses a ddefnyddiwyd yn y Ddogfen Ymgynghori ac arweiniodd hynny at ffafrio **Opsiwn 5** sef, **adeiladu ysgol newydd, fwy ar safle newydd gyda meithrinfa, gofal plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig.**

Trwy'r broses werthuso cyflwynwyd argymhelliad terfynol am y model cyflenwi a ffafrir i'r cyfnod Ymgynghori, gyda'r bwriad o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a nodi blaenoriaethau o'u safbwynt hwy. Roedd y cam hwn yn rhan bwysig o'r broses, er mwyn codi cwestiynau pwysig ar gam cynnar, ac i helpu i ddatblygu cynigion mewn mwy o fanylder, er mwyn ystyried:

- a oes ffyrdd gwell i gyflawni eich amcanion?

- a oes ffyrdd gwell i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael?
- ai dyma'r ffordd orau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir?

Manteision ac Anfanteision

Mae rhai heriau cyffredin y mae pob Awdurdod Lleol yn eu hwynebu wrth fabwysiadu cynigion newydd. Mae'r mwyafrif helaeth o bolisiâu'r Cyngor yn cael eu cyflenwi drwy brosiectau a rhaglenni amrywiol. Felly, mae'n hollbwysig bod prosiectau'n cael eu cyflenwi'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r manteision a fwriadwyd i ddinasyddion.

Mae tystiolaeth yn dangos mai'r ffordd orau i sicrhau proses gyflenwi lwyddiannus yw drwy sefydlu prosiectau yn gywir o'r dechrau. Achosion mwyaf cyffredin methiant yw: diffyg amcanion clir, adnoddau annigonol, costau ac amserlen gor-uchelgeisiol, ymhlith achosion eraill sydd wedi effeithio ar y lefel a'r swm o fudd y gellir ei gwireddu, ac y gellir eu hosgoi drwy fynd i'r afael â hwy yn ystod camau cynnar prosiect.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, nodwyd nifer o fanteision ac anfanteision, fel y'u hamlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori. Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn deall beth oedd yn ganlyniadau cadarnhaol yn eu barn hwy a pha ganlyniadau negyddol y gellir eu creu.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith [Cydraddoldeb ac Asesiad Effaith ar y Gymuned](#) er mwyn dechrau'r drafodaeth ac i wahodd sylwadau a oedd cefnogaeth i'r egwyddorion ar gyfer y cynnig.

Mae pob un o'r sylwadau wedi'u cofnodi a byddant ar gael i'r Cabinet fel atodiad ar wahân i'r Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn.



Y Broses Ymgynghori

Y Broses Ymgynghori

Mae'r broses ymgynghori wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Oherwydd bod y cynnig yn gysylltiedig ag 'addasiad rheoledig' i ysgol Arbennig o dan Adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'r cynigion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Goblygiadau COVID-19

Oherwydd goblygiadau COVID-19 ar yr adeg y bwriadwyd i'r ymgynghori hwn gael ei gynnal ac ar ôl derbyn cyngor gan Lywodraeth Cymru, ataliodd y broses ymgynghori hon rhag ymgymryd ag unrhyw sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb er mwyn cefnogi'r mesurau cadw pellter cymdeithasol a chynnal arferion gweithio diogel i bawb.

Dylid nodi nad oes unrhyw rwymedigaeth i ymgynghori wyneb yn wyneb ac felly cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ysgrifenedig ar bapur er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fodd bynnag, defnyddiwyd nifer o ddulliau ymgynghori amgen, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, technoleg amser wyneb a'r cyfle i holi cwestiynau i ffurfio rhan o'r Ddogfen ['Cwestiynau Cyffredin'](#) .

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Hysbyswyd yr ymgynghoreion ynghylch y cynnig ac argaeledd dogfennaeth yr ymgynghori pan gafodd ei weithredu ar 14 Medi 2020 drwy lythyr/e-bost ac felly fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymgynghori statudol.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi'r unigolion/grwpiau hynny yr ystyrir eu bod yn ymgynghoreion allweddol yn y broses ymgynghori. Mae'r rhestr isod yn cyflwyno'r ymgynghoreion yr ymgysylltwyd â hwy sy'n berthnasol i gynigion o'r natur hwn i Fwrdeistref Sirol Caerffili.

- Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalmwr pob disgybl ysgol sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Pennaeth, staff a llywodraethwyr ysgolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion ysgolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Cyfarwyddwyr Addysg pob ALL cyfagos – Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen
- Bwrdd Addysg yr Esgobaeth Gatholig
- Bwrdd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru
- Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE)
- Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigiwr o'r farn y byddant yn debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig
- Aelodau Lleol CBSC
- Holl Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Gweinidogion Cymru
- ESTYN
- Cymdeithasau Addysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Consortiwm De-ddwyrain Cymru (EAS)
- Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddau Gwent a De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Rhwydwaith Rhieni
- Fforwm Addysg Cymru

Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg, ystyrir bod Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghorai ac felly cysylltwyd ag ef mewn perthynas â'r cynnig hwn.

Rhestrir yr ysgolion y nodwyd bod y cynnig yn effeithio arnynt isod:

Ysgol	Rheswm
Ysgol Gymraeg Cwm Derwen	Agosrwydd - Ysgol Cyfrwng Cymraeg cymunedol amgen agosaf yn y Fwrdeistref. Mae angen ystyried yr effaith ar y niferoedd a'r galw a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig.
Ysgol Gynradd Abercarn	Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg Agosrwydd 1.8 milltir o'r safle presennol Mae angen ystyried yr effaith ar y niferoedd a'r galw a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig.
Ysgol Gynradd Cwmcarn	Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg Agosrwydd 0.7 milltir o'r safle presennol Mae angen ystyried yr effaith ar y niferoedd a'r galw a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig.
Ysgol Gynradd Waunfawr	Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg Agosrwydd 1.5 milltir o'r safle presennol Mae angen ystyried yr effaith ar y niferoedd a'r galw a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig.

Yn ogystal â chynghori'r rhai yr oedd yn ofynnol i ni wneud o dan y meini prawf rhanddeiliaid, cysylltwyd â'r canlynol hefyd a'u hysbysu am ein cynigion yn ysgrifenedig:

- Pob Pennaeth yn y Fwrdeistref

Gwybodaeth am yr Ymgynghori

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn datgan, wrth gynnal proses ymgynghori ar gynnig sy'n ymwneud ag ysgol, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth er mwyn galluogi proses dryloyw, gytbwys ac agored ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'n rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol ac mae'n rhaid caniatáu o leiaf 42 diwrnod i'r ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddyddiau ysgol fel y'u diffinnir gan Adran 579 Deddf Addysg 1996. Agorodd y cyfnod ymgynghori ddydd Llun 14 Medi 2020 (diwrnod ysgol) a daeth i ben am hanner nos, dydd Llun 26 Hydref 2020.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cafodd y ddogfennaeth ganlynol ei chynhyrchu:

- Llythyr Hysbysu'r Ymgynghori
- Dogfen Ymgynghori
- Crynodeb o'r Ymgynghori sy'n addas i Blant
- Fideo Ymgynghori
- Delwedd artist o'r ysgol newydd arfaethedig


- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori (Ar-lein)
- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori (PDF y gellir ei hargraffu)
- Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg



Cynhyrchwyd crynodeb a fideo o'r ymgynghori a oedd yn addas i blant er mwyn cefnogi'r broses ymgynghori gyda disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio ac sy'n cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n berthnasol i'w dealltwriaeth debygol hwy, ac a oedd yn eu galluogi i gyfranogi yn y broses ymgynghori a ffurfio barn wybodus. Yn ogystal â'r ddogfennaeth hon, fe ddarparodd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a staff addysgu lleol gymorth i'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn dymuno cyflwyno ymateb i'r ymgynghori yn eu dewis fformat ac iaith, gan fod hynny'n arbennig o berthnasol o ystyried bod y plant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg.

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennaeth yn Gymraeg a Saesneg, gan gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais, fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath fel rhan o'r broses hon.

Cyflwynwyd copïau papur o'r ddogfennaeth i'r ysgolion a oedd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig, gan gynnwys crynodeb addas i blant i'w drafod gyda'r disgyblion.



Yn ogystal â hysbysu'r ymgynghoreion yn ysgrifenedig ynghylch y cynnig, cefnogwyd y broses o rannu gwybodaeth drwy wasanaeth negeseuon testun yr ysgol yn uniongyrchol i rieni a staff.

Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd. Rhyddhawyd negeseuon am yr ymgynghori mewn camau yn ystod 3 wythnos gyntaf yr ymgynghori, er mwyn hysbysu'r cyhoedd a darparu cyrhaeddiad mor eang â phosibl ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn fetrig dadansoddi'r cyfryngau sy'n cyfeirio at y nifer o ddefnyddwyr sydd wedi dod ar draws cynnwys penodol ar lwyfan cymdeithasol, er enghraifft Facebook, YouTube neu Twitter.

Wythnos 1	Rhyddhau Fideo YouTube	CaerphillyCBCTV	684 o danysgrifwyr
Wythnos 2	Neges Facebook	@CaerphillyCBC	28,188 o ddilynwyr
Wythnos 3	Neges Twitter	@CaerphillyCBC	19.3k o ddilynwyr

Dulliau Ymateb

Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gallai unrhyw un a oedd yn dymuno gwneud sylwadau ar y cynnig wneud hynny'n ysgrifenedig drwy:

- Cwblhau ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau ffurflen ymateb a'i phostio at Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerffili
- Sylwadau e-bost i Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerffili

Cafodd y ffurflenni ymateb eu cynllunio mewn ffordd a fyddai'n casglu'r wybodaeth berthnasol a oedd ei hangen i gyflawni goblygiadau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer cynnal ymgynghori sy'n gysylltiedig ag addasiad rheoledig i ysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr ymgynghori hwn er mwyn casglu barn yr ymgynghoreion ynghylch y cynnig i adleoli'r ysgol. Mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hymgorffori yn y ddogfen hon, a byddant yn cael eu cyhoeddi a'u hystyried gan y Cabinet wrth benderfynu i fwrw ymlaen i'r cam hysbysiad Statudol ai peidio. Cynhelir Proses Cais Cynllunio ar wahân mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Disgrifiwyd y prosesau statudol ar wahân yn y ddogfen ymgynghori ac mae unrhyw sylwadau negyddol a dderbyniwyd fel rhan o'r broses wedi'u cofnodi fel rhai negyddol.




Ymatebion i'r Ymgynghori

Ymatebion i'r Ymgynghori


Cafwyd cyfanswm o 388 o ymatebion yn ystod y broses ymgynghori.

Roedd cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori fel a ganlyn:

- 211 o ymatebion trwy gyfrwng Arolwg ar Lein
- 173 o ymatebion trwy e-bost
- 4 o ymatebion trwy'r post




Roedd 48 o ymatebion (12%) yn Gymraeg a 340 (88%) yn Saesneg.



Ni chafodd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif unrhyw gais i ddarparu'r dogfennau mewn unrhyw ffurf neu iaith arall.

Cwestiwn 1

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion ddewis categori oedd yn eu disgrifio orau mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer yr ysgol dan sylw. Roedd y dewisiadau ar gyfer hynny wedi'u pennu i ddangos ymgysylltiad gyda'r grwpiau allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.



53% Disgyblion	24% Rhieni	4% Aelodau Staff	1% Llywodraethwyr Ysgol	0.2% Aelodau Etholedig	18% Arall
-------------------	---------------	------------------------	-------------------------------	------------------------------	--------------

Os oedd pobl yn dewis 'Arall' roedd cyfle wedyn iddynt egluro ymhellach fel y dymunent.

Cwestiwn 2

Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd am wybodaeth gysylltu sylfaenol, yn cynnwys enw, cyfeiriad ac e-bost. Roedd y data seicograffig yma'n cael ei gasglu fel cymorth i gael darlun o'r ymgynghoreion ac i alluogi tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ddeall tueddiadau mewn data ymateb a grwpiau ymateb. Byddai hynny o gymorth i roi'r Adroddiad Ymgynghori hwn at ei gilydd.

Gan fod modd casglu gwybodaeth ar gyfer llawer o ddibenion, fe gyfeiriwyd at hysbysiad preifatrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer ymgynghori/arolygon. Mae'r hysbysiad yn rhoi amlinelliad o'r diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer casglu'r wybodaeth, defnyddio data a'r cyfnodau amser i gadw data.

Yng nghyswllt yr Adroddiad Ymgynghori, bydd y Cabinet yn cael crynodeb ar wahân o'r sylwadau a gafwyd wrth ymgynghori. Dylid nodi bod unrhyw sylwadau y barnwyd eu bod yn dramgwyddus neu'n rhoi arwydd o enw pwy oedd yn ymateb wedi eu tynnu neu eu golygu.

Cwestiwn 3

Fel rhan o'n dyletswydd o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r ymgynghoreion gael y dewis i ofyn i gael eu hysbysu pan fydd yr Adroddiad Ymgynghori'n cael ei gyhoeddi. Fe gasglwyd gwybodaeth ar gyfer cysylltu â hwynt i'r diben hynny, a'r dewis cyntaf ar gyfer cysylltu fydd trwy e-bost, os cafwyd cyfeiriad e-bost oddi wrth yr ymatebydd.



Mae 126 o'r 388 wnaeth ymateb wedi gofyn i gael eu hysbysu. Cafodd yr unigolion hynny eu hychwanegu at y rhestr hysbysu a byddwn yn cysylltu â hwynt ar yr un adeg â'r rhanddeiliaid pan ddaw'r ddogfen hon yn gyhoeddus trwy gyfrwng gwefan y Cyngor. Bydd copïau papur o'r dogfennau ar gael os gofynnir amdanynt.

Cwestiwn 4




Gall yr ymgynghoreion roi eu barn o blaid neu yn erbyn y cynnig.

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion ddweud pa un o'r datganiadau a ganlyn sydd agosaf at eu barn nhw ar y cynnig. Fe'u hatgoffwyd i ddarllen y dogfennau ymgynghori cyn rhoi eu hymateb yn ystod yr ymgynghori, ac na fyddai sylwadau anffafriol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar yr adeg honno.

Dyma'r dewisiadau a roddwyd:

- Dim barn gref y naill ffordd na'r llall
- Yn cefnogi'r cynnig
- Ddim yn cefnogi'r cynnig

O'r ymatebion a gafwyd, roedd 367 yn cefnogi'r cynnig, 13 ddim yn ei gefnogi, 6 ddim yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall a 2 heb ddewis rhoi ateb. Mae hyn yn gyfystyr â chefnogaeth o 95%, gyda 3% yn erbyn a'r 2% sy'n weddill naill ai'n rhoi ymateb niwtral neu ddim sylw.



Mae'n briodol tynnu sylw'r Cabinet at y posibilrwydd y gallai'r sylwebaeth a roddir fel rhan o Gwestiwn 5 gynnig golwg ddyfnach i farn yr ymgynghoreion. Hefyd ni ddylai'r ymateb a roddwyd i gwestiwn 4 gael ei ystyried ar ei ben ei hun.

Cwestiwn 5

Roedd hwn yn flwch i roi ymateb agored, felly y gallai'r ymgynghoreion roi sylwadau ychwanegol ar y cynnig. Cafodd yr holl sylwadau eu darllen a'u dadansoddi.

Daeth rhai themâu cyffredinol yn amlwg o'r ymgynghori:

- Cydnabod bod safle presennol Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn gyfyng, ei fod 'wedi cael ei ddatblygu gymaint ag y gellid' a bod yr ysgol 'wedi tyfu'n fwy na'i safle'
- Mae'r cynnig yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal

- Pryderon am y bwriad i ddefnyddio'r safle mawr yng Nghwm-carn ar gyfer Ysgol Gynradd yn unig
- Pryderon am ddiogelwch a rheolaeth traffig yn y safle presennol a'r un arfaethedig
- Pryderon am effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal
- Dymuniad i ddefnyddio'r safle ar gyfer ysgol gyfun newydd cyfrwng Saesneg

Cwestiwn 6

Yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ddogfen Canllawiau Ymgynghori a Monitro 2016, fe gynhwyswyd fersiwn byrrach o'r holiadur Cydraddoldeb a Monitro fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghori. Roedd hynny i gefnogi cynllunio effeithiol ac i sicrhau sampl cynrychioliadol er mwyn canfod unrhyw drafferthion o ran cydraddoldeb.

Fe gynhwyswyd y dewis o allu rhoi gwybodaeth yn ymwneud â Rhyw, Oed, Statws Anabledd, Sgiliau Iaith Gymraeg ac unrhyw ffactorau sy'n dylanwadu ar eu hymateb, ond nid oedd hynny'n orfodol.

Dyma'r canlyniadau ar gyfer y rhai wnaeth gwblhau'r adran Cydraddoldeb yn yr ymatebion:

Ydych chi yn ...			
Gwryw	63	Arall	0
Benyw	156	Gwell gennyf beidio dweud	169

Oed			
O dan 16	39	40-65	67
16-25	8	Dros 65	7
26-39	81	Gwell gennyf beidio dweud	186

Anabledd			
Ddim yn anabl	188	Anawsterau Dysgu	0
Nam Corfforol / Symudedd	1	Nam ar y Golwg	0
Nam ar y Clyw	2	Nam ar y Lleferydd	0
Gwell gennyf beidio dweud	166		
Arall	30		

Sgiliau Iaith Gymraeg				
	Ychydig	Cymedrol	Gweddol Dda	Rhugl
Siarad	71	13	8	84
Deall	62	17	10	84
Darllen	58	17	9	83
Ysgrifennu	58	12	8	81
Dim Sgiliau iaith Gymraeg	71	Gwell gennyf beidio dweud 133		

Cwestiwn 7

O ran y goblygiadau cydraddoldeb y tynnwyd sylw atynt gan ymatebwyr, dywedodd 8 ymateb bod eu penderfyniad wedi'i ddylanwadu gan y rhestr a amlinellwyd yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghori, er enghraifft:

- 'Yn dymuno i fy mhlant gael gymaint o fudd â phosibl o'r iaith Gymraeg a'u haddysg'
- 'Fel person dwyieithog yn byw yng Nghymru, rwy'n credu y dylai'r Cyngor ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n ateb anghenion addysg yr 21^{ain} Ganrif'

Ymateb Craffu Addysg

Mae Pwyllgor Craffu Addysg y Cyngor yn un o'r ymgynghoreion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau polisi neu wasanaeth mewn perthynas ag Addysg yn y Fwrdeistref Sirol.

Cafwyd cyfarfod digidol gan ddefnyddio Microsoft Teams ar ddydd Mawrth 22 Medi am 5.30pm, gyda 13 o'r 15 Cynghorydd yn bresennol.

Yn y cyfarfod, fe drafodwyd Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif ac ymgynghori ar Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Roedd yr holl ddogfennau ymgynghori ar gael i'r aelodau fel rhan o becyn adroddiadau'r rhaglen ac roedd y swyddogion oedd yn gysylltiedig â'r cynnig ar gael i gymryd cwestiynau.

Cytunwyd y byddai pleidlais yn digwydd ar y cynnig ac y byddai'r bleidlais yn cael ei chofnodi'n swyddogol yn yr Adroddiad Ymgynghori hwn. Fe bleidleisiodd aelodau'r Pwyllgor yn unfrydol o blaid y cynnig ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.



Mae recordiad o'r sesiwn ar gael ar YouTube:

[Cyfarfod Pwyllgor Craffu Addysg](#)

Mae'r eitem ar y rhaglen yn ymwneud â'r cynnig hwn yn dechrau 18 munud a 50 eiliad o ddechrau'r recordiad.

Mae'r ddogfen [Hysbysiad o'r Penderfyniadau](#) hefyd ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Ymateb Estyn

O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 mae angen i'r Cyngor, fel y cynigiwr, yrru hysbysiad o'r ymgynghori i Estyn.

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru a'u gweledigaeth hwy yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff mae'n ofynnol iddo weithredu'n unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ddim ond ar gryfderau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynigion. Cafodd yr ymateb llawn oddi wrth Estyn ei gynnwys fel Atodiad i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, dyma grynodedb ohono:

“Mae'r cynigydd wedi darparu rhesymeg briodol dros y cynnig. Y bwriad yw disodli'r ysgol bresennol sydd ar safle gydag adeiladau mewn cyflwr gwael. Mae hefyd i ateb y galw cynyddol am addysg gyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Yn ogystal, mae'r cynigydd yn bwriadu darparu adnodd Cymraeg ar gyfer y plant hynny sydd angen darpariaeth arbenigol y tu allan i ysgol brif ffrwd.”

“Barn Estyn yw bod y cynnig fan lleiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg a darpariaeth gyfredol yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'r cynigydd wedi darparu digon o eglurder ynghylch lliniaru yn erbyn y risg y bydd y cynnig yn cynhyrchu nifer sylweddol o leoedd dros ben ar safle'r ysgol newydd.”

Mae'r Cyngor yn cydnabod ymateb Estyn ac yn dymuno rhoi'r eglurhad a ganlyn mewn perthynas â sylw Estyn yn ymwneud â *“lliniaru yn erbyn y risg y bydd y cynnig yn cynhyrchu nifer sylweddol o leoedd dros ben ar safle'r ysgol newydd.”*

Y cynnig ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yw adleoli'r ddarpariaeth bresennol a darparu capasiti ychwanegol ar y safle ar gyfer hyd at 420 o lefydd a hefyd ddarpariaeth meithrinfa a chanolfan adnoddau arbennig. Rydym yn cydnabod y bydd y cynnig yn creu lleoedd dros ben yn yr ysgol ar y dechrau ac fe gafodd hyn ei ddatgan a'i ystyried fel risg lefel isel derbyniol. Mae sôn yn y ddogfen ymgynghori am reoli mynediad dros nifer o flynyddoedd. Bydd hynny'n lleddfu'r effaith ar ysgolion cyfagos cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, er y bydd yn ffactor yn cyfrannu at leoedd gwag dros ben ar y dechrau. Cafodd y lleoedd eu cyfrifo ar sail cynnydd yn y galw yn yr ardal ac er mwyn parhau i gefnogi'r Cyngor i symbylu galw am addysg cyfrwng Cymraeg i ateb dyhead Llywodraeth Cymru i gyrraedd targed heriol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hynny fel sydd wedi'i amlinellu yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg Caerffili.

Eglurhad i'r Ymgynghori

Wrth ddadansoddi'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori, daeth yn amlwg fod nifer o agweddau yn codi dro ar ôl tro a oedd yn achosi pryder, ac agweddau eraill a gafwyd lefel o gytundeb gyda'r cynigion.

Er mwyn cynorthwyo'r Cabinet gyda'r broses benderfynu, mae'r wybodaeth a ganlyn wedi'i darparu fel ymateb er eglurder, gyda rhesymau cefnogol.

➤ Meysydd o bryder eang

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Y defnydd a bennwyd ar gyfer y safle adleoli arfaethedig	- Maint y safle - Pam darpariaeth Gynradd?
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	8

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y safle arfaethedig ar gyfer adleoli ôl troed llawer mwy na safle presennol Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Bydd yr ôl troed a fwriedir ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn caniatáu hefyd ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Mae hynny'n cynnwys y posibilrwydd o gael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, a fydd hefyd yn cefnogi gofynion Cynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor ac yn cefnogi Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Fel y dangoswyd trwy'r Ddogfen Ymgynghori drwyddi draw, mae safle presennol Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wedi cyrraedd ei lawn potensial. Mae galw cynyddol am ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ac mae'r cynnig hwn yn ceisio ymdrin â'r mater yma.

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Darpariaeth Uwchradd	- Adeiladu darpariaeth cyfrwng Saesneg newydd - Galw am addysg cyfrwng Saesneg - Capasiti yn Ysgol Gyfun Trecelyn / Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	9

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu cyfleusterau addysgol sy'n ateb anghenion ein disgyblion a'n cymunedau lleol.

Fel y dangosir gan y ffigyrau isod, nid yw wedi'i nodi ei bod yn ofynnol cael darpariaeth ychwanegol cyfrwng Saesneg. Nodwyd bod gan y ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg leol ddarpariaeth ddigonol yn eu lleoliadau presennol ar gyfer disgyblion eu dalgylchoedd.

Ysgol	Capasiti	Nifer ar y Gofrestr Medi 2020	% Disgyblion y Dalgylch ar y gofrestr	% Tu allan i'r Dalgylch	% Tu Allan i'r Sir
Trecelyn	1017	991	65.59%	17.46%	16.95%
Rhisga	729	661	82.45%	12.56%	4.99%

Yn ogystal, cafodd Ysgol Gyfun Trecelyn fuddsoddiad o £2 filiwn i ddarparu 9 o ystafelloedd dosbarth ychwanegol a chyfleusterau ategol fel rhan o raglen Band A Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
--------------	--------------------------------------

Buddsoddiad mewn Ysgolion	- Ysgolion Cyfrwng Saesneg - Ysgolion Cynradd eraill yn yr ardal
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	4

Ymateb y Cyngor

Mae gan y Cyngor ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd dysgu o ansawdd i bob dysgwr. Dim ond un peirianwaith ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd ein Hysgolion yw rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mae'r Cyngor yn gwella ansawdd adeiladau ysgol trwy'r Rhaglen Buddsoddiadau Cyfalaf gydol yr amser. Bydd ysgolion yn cael gwahoddiad i gyflwyno ceisiadau bob blwyddyn i gefnogi gwaith gwella. Bydd unrhyw waith y gwelir bod angen amdano o ganlyniad i sylw gan y tîm Iechyd a Diogelwch hefyd yn cael ei wneud.

Yn ogystal, cafodd y cynnig ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ei flaenoriaethu am fod y lleoliad wedi cyrraedd ei gapasiti llawn mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiadau pellach ar y tir sy'n perthyn iddo nawr. Ond mae gan y darpariaethau cyfrwng Saesneg lleol y cyfle i symud ymlaen os bydd angen ateb galw.

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Rheoli Trafnidiaeth	- Cludo disgyblion - Cynnydd mewn llif traffig yn y safle arfaethedig - Mynediad a pharcio
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	6

Ymateb y Cyngor



Mae gan y Cyngor ymrwymiad i ddarparu rheolaeth ddiogel, effeithlon ac effeithiol ar draffig fel rhan o unrhyw ddatblygiad.

Y safle a ddynodwyd ar gyfer adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yw hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn. Roedd gan yr ysgol uwchradd honno ddigon o le i tua 1,000 o ddisgyblion. Mae'r cynnig ar gyfer yr ysgol gynradd yn llai na hanner y ffigwr hwnnw.

Mae'r Ddogfen Ymgynghori'n cydnabod pwysigrwydd Teithio gan Ddysgwyr. Mae diogelwch plant yn hollbwysig ac o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu addasrwydd teithio i ddysgwyr rhwng eu cartref a lle cânt addysg a hyfforddiant

Mae hefyd yn bwysig cael barn plant a phobl ifanc yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Gall barn pobl ifanc a sut byddant yn gweld y sefyllfa ddarparu gwybodaeth i swyddogion awdurdod lleol sy'n gyfrifol am asesu'r ddarpariaeth i deithio o'r cartref i'r ysgol. Dyma pam fod plant a phobl ifanc yn un o'r grwpiau allweddol i ymgynghori â hwynt fel rhan o'r broses ymgynghori.

Rhagwelir y bydd hyn yn golygu parhau gyda'r sefyllfa bresennol gan fod yr adleoli'n llai nag 1 filltir oddi wrth y safle presennol. Bydd y dalgylch i'r disgyblion yn parhau yr un fath.



Yn ogystal, fel rhan o gynllunio a dylunio'r cyfleuster newydd, bydd llwybrau teithio a mynediad mwy diogel yn cael eu sefydlu, gyda mannau wedi'u dynodi ar gyfer casglu a gollwng. Bydd y broses hon yn mynd trwy gais cynllunio llawn a bydd gwahoddiad i amrediad eang o'r rhai yr ymgynghorir â hwynt roi eu sylwadau, gan gynnwys yr Adran Prifffyrdd.

➤ Meysydd lle cafwyd cytundeb

Maes lle cafwyd cytundeb	Pwyntiau a wnaed gan ymgynghoreion:
Cyflwr ac addasrwydd safle presennol Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon	• Capasiti presennol • Wedi datblygu'r safle gymaint ag y bo modd • Safonau / Ansawdd • Mynediad i'r safle • Parcio / Danfon plant i'r ysgol

Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	257
---------------------------------------	-----

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi bod y rhai yr ymgynghorwyd â hwynt wedi cydnabod ac ategu bod safle presennol Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wedi cael ei ddefnyddio gymaint ag y bo modd o ran adeiladu arno ac, ar yr un pryd, gadw at ddarpariaeth addysgu o ansawdd uchel.



Delwedd o safle presennol Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon

Nid yw capasiti'r ysgol yn addas ar gyfer gweithgareddau ysgol gyfan e.e cyngherddau / cyfarfodydd i'r ysgol gyfan / cyfleusterau bwyta. Mae'r adeilad gwreiddiol yn gosod cyfyngiadau o ran mynediad llawn a safle ar fwy nag un lefel. Mae lleoliad yr ysgol bresennol hefyd yn gosod heriau bob dydd o ran mynediad trwy gyfrwng prif ffordd a lle cyfyng i gerdded rhwng 2 dŷ tafarn.

Byddai'r cynnig yn ateb y ddau fater hyn.

Maes lle cafwyd cytundeb	Pwyntiau a wnaed gan ymgynghoreion:
Mae cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg	- Cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a bennwyd - Dewis ar gyfer rhieni - Dwyieithrwydd
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	90

Ymateb y Cyngor

Mae'n galonogol i'r Cyngor fod yr ymatebion a roddwyd gan yr ymgynghoreion wedi cydnabod y cynnydd mewn galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a hefyd manteision ehangach galluogi rhieni i gael dewis, dwyieithrwydd a'r cyfleoedd i'r dyfodol ar gyfer addysg eu plant.

Cafodd hefyd ei gydnabod trwy'r ymatebion y byddai'r cynnig hwn yn gyfle i ateb y galw cynyddol am lefydd ychwanegol ar lefel addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Maes lle cafwyd cytundeb	Pwyntiau a wnaed gan ymgynghoreion:
Angen am Gyfleusterau Ychwanegol	• Cyfleusterau awyr agored • Iechyd, lles a phrofiadau dysgu • Defnydd cymunedol
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	222

Ymateb y Cyngor

Dywedodd yr ymgynghoreion y gallai'r cyfleusterau a amlinellwyd yn y cynnig fod o fudd i'r disgyblion a'r gymuned ehangach.

Maent hefyd wedi dweud y bydd y cyfleusterau ychwanegol o fudd i addysg, hamdden a lles yn gyffredinol, gan gefnogi'r Cyngor i gwrdd â'i ddyheadau ar gyfer Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Un o nodau allweddol rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru, a phwynt hanfodol ar gyfer cael buddsoddiad, yw *'sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol i'w defnyddio gan ysgolion a'r gymuned ehangach'*.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n tynnu sylw at nifer o grwpiau cymunedol sy'n defnyddio'r safle ar hyn o bryd ond bod y dyluniad presennol yn cyfyngu ar hynny.



Noder: Dim ond ar gyfer diben darlunio y mae'r ddelwedd uchod ac mae'r dyluniad ar ffurf drafft ar hyn o bryd ac yn dibynnu ar gymeradwyo'r prosiect, cynllunio ac ymchwiliadau i'r safle.

Bydd y prosiect arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth y dymuniad i annog a hwyluso defnydd cymunedol o'r ased. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio'n ceisio cynnwys mesurau i alluogi trefnu rhannau o'r ysgol mewn 'parthau' diogel. Bydd hefyd yn diogelu a hyrwyddo cynhwysiant a lles yn y gymuned.

Dewisiadau Amgen Rhesymol a Nodwyd

Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, y cynnig dan sylw yw adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Hwn oedd y dewis a ffafriwyd yn dilyn proses o arfarnu dewisiadau, a chafodd

ei sgorio yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol o ran cydweddu Strategol, cydweddu Addysgol, Mynediad, cydweddu Ariannol a'r Effaith Amgylcheddol.

Roedd y broses ymgynghori a'r sylwadau a gafwyd yn cydnabod bod angen buddsoddi yn yr ysgol.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, mae angen i'r Cyngor wneud asesiad pellach ar gyfer y cynnig. Mae'r asesiad pellach hwn er mwyn cymryd i ystyriaeth unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth ymlaen trwy'r ymgynghori neu mewn ffordd arall.

Yn ei adroddiad ymgynghori, mae angen i'r Cyngor egluro ei asesiad o'r cynnig a'r dewisiadau amgen rhesymol eraill a nodwyd, sut mae'r asesiad hwn yn wahanol i'w hasesiad cynharach (os o gwbl) a'i asesiad o unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol pellach. Yn olaf, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadarnhau a yw'n credu mai gweithredu'r cynnig (yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol) yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a welwyd o blaid y cynnig. Bydd hefyd angen rhesymau o blaid ei gasgliad, gan gynnwys asesiad o'r effaith debygol ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg, y gymuned a'r effaith ar wahanol drefniadau teithio.

Cafodd y dewisiadau amgen a ganlyn eu codi trwy'r rhai yr ymgynghorwyd â hwynt:

Dewis amgen a godwyd gan ymgynghoreion	
<i>Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i leoliad arall fel Tŷ Sign</i>	
Ymateb y Cyngor	
Mae'r Cyngor yn croesawu bod yr ymgynghoreion yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ymhellach yn Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon bresennol ac nad yw'r lleoliad presennol yn addas erbyn hyn. Pe bai Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn cael ei lleoli ar safle arall fel yr awgrymwyd, megis Tŷ Sign, byddai hynny'n golygu tarfu ar ysgol cyfrwng Saesneg sy'n bodoli'n barod ac na welwyd bod amni angen mwy o le. Gallai hynny hefyd effeithio ar ansawdd a safonau'r addysg a ddarperir ar hyn o bryd. Ni fyddai'r safle a gynigir, sef Ysgol Gynradd Tŷ Sign, yn addas ar gyfer y cynnig hwn. Mae hynny am fod capasiti'r ysgol yn fwy na'r hyn sydd ei angen ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, felly byddai'n creu llefydd gwag ychwanegol. Ni fyddai Ysgol Gynradd Tŷ Sign wedi'i lleoli yng 'nghalon' y gymuned wedyn. Byddai tu allan i'w dalgylch presennol, gan arwain at efallai ail-gyflunio, effaith ar amrediad ehangach o ysgolion a phellteroedd teithio ychwanegol i'w disgyblion. Yn ogystal, byddai'n achosi adleoli cohort mwy o faint, gan olygu bod angen am ysgol mwy o faint am fwy o gost na'r cynnig presennol. Mae'r Cyngor yn croesawu adborth ar y mater hwn gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwynt, ond argymhellir nad yw hwn yn ddewis amgen addas yn lle'r cynnig presennol.	
Asesiad y Cyngor o'r Dewis Amgen Rhesymol:	Penderfynu peidio defnyddio'r dewis hwn

Dewis amgen a godwyd gan rai yr ymgynghorwyd â hwynt:

Adeiladu ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg ar safle Cwmcarn

Mae'r amrywiaethau i hyn yn cynnwys:

- Ysgol newydd yn lle Ysgol Uwchradd Cwmcarn
- Ysgol newydd ar gyfer disgyblion Ysgol Trecelyn
- Ysgol newydd i gyfuno Trecelyn a Rhisga

Ymateb y Cyngor

Fel y gwelwyd yn gynharach yn yr Adroddiad Ymgynghori hwn, mae gan y Cyngor ymrwymiad i ddarparu cyfleusterau addysgol sy'n ateb anghenion ein disgyblion a'n cymunedau lleol.

Awgrymodd amryw o'r ymgynghoreion y dylai'r safle adeiladu a fwriedir ar gyfer adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon gael ei ddefnyddio yn hytrach ar gyfer darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg. Codwyd nifer o amrywiaethau ar y thema yma, gan gynnwys darpariaeth uwchradd newydd yn lle hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn, adleoli Ysgol Trecelyn, neu gyfuno Ysgol Trecelyn ac Ysgol Uwchradd Rhisga ar un safle. Cafodd manteision y dewisiadau hyn eu hystyried cyn dod â'r cynnig hwn ymlaen, gan gymryd i ystyriaeth yr effaith debygol ar ansawdd a safonau, cymuned, llefydd gweigion a threfniadau teithio. Fel y dywedwyd yn gynharach, does dim tystiolaeth o angen i fuddsoddi mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar y safle hwn.

Yn ogystal, roedd buddsoddiad sylweddol o £2 filiwn yn ddiweddar yn Ysgol Trecelyn, trwy gyfrwng rhaglen Band A Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif.

Mae'r Cyngor yn croesawu adborth oddi wrth yr ymgynghoreion ar y mater hwn, ond mae'n cael ei argymhell nad yw'r dewis hwn yn ddewis amgen addas yn lle'r cynnig presennol.

Asesiad y Cyngor o'r Dewis Amgen Rhesymol:

Penderfynu peidio defnyddio'r dewis hwn

Dewis amgen a godwyd gan rai yr ymgynghorwyd â hwynt:

Adeiladu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn yr un lleoliad ar safle Cwmcarn

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr ymgynghoreion wedi darparu'r dewis amgen hwn i adlewyrchu'r arfer sy'n digwydd mewn awdurdodau eraill. Fe ystyriwyd y dewis hwn cyn llunio'r cynnig presennol ond teimlwyd ar yr adeg honno nad oedd yn ddewis y dylid ymchwilio ymhellach iddo. Roedd hynny oherwydd yr isadeiledd cyfrwng Saesneg sydd ar gael yn yr ardal ac, fel y soniwyd yn gynharach, i ateb anghenion y disgyblion a'r gymuned.

Cafodd y cynnig presennol ei lunio i gael cyn lleied o effaith ag y bo modd, wrth sicrhau ei fod yn ateb y galw a welwyd am addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai cyd-leoli'r ddarpariaeth bresennol, cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, yn golygu tarfu ar gohort ehangach o ddisgyblion a threfniadau teithio. Does dim tystiolaeth ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gwneud sylwadau ar yr effaith a gai hynny ar ansawdd a safonau'r ddarpariaeth.

Mae'r Cyngor yn croesawu adborth oddi wrth yr ymgynghoreion ar y mater hwn, ond argymhellir nad yw hwn yn ddewis amgen addas yn lle'r cynnig presennol.

Asesiad y Cyngor o'r Dewis Amgen Rhesymol:

Penderfynu peidio defnyddio'r dewis hwn



Llais y Dysgwr

Mae gan bobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei glywed a chael ystyriaeth briodol yn unol â'u hoed a'u haeddfedrwydd.

Fersiwn Cryno o'r Ymgynghori – ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais pobl ifanc yn ymwneud â'u cynnwys fel rhai sy'n cymryd rhan weithredol mewn datblygu, rheoli a gwella eu profiad addysgol ac fel myfyrwyr. Mae angen i hynny fod wrth galon y gwaith cynllunio, darparu ac arfarnu.

Cafodd fersiwn cryno o'r brif ddogfen ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi, a'i dargedu'n benodol at blant a phobl ifanc. Cafodd ei ryddhau ar lein fel rhan o'r pecyn ymgynghori ac roedd copïau papur hefyd ar gael oddi wrth yr ysgol yn ôl y gofyn.

Ysgolion yr 21ain Ganrif – Crynodeb o'r Ymgynghoriad ynghylch Plant a Phobl Ifanc YSGOL GYMRAEG CWM GWYDDON 14 Medi– 26 Hydref 2020  Ysgolion yr 21ain Ganrif 21st Century Schools CAERPHILLY Ysgolion 21ain Ganrif CAERFFILI Llywodraeth Cymru Welsh Government	 Helo, fy enw i yw Vision a dyma fy ngli, K9-2.1 Rydyn ni yma i drafod prosiect cyffrous gyda chi a hoffem ni glywed eich barn! Ysgolion yr 21ain Ganrif 21st Century Schools	Yr hyn y byddwn yn ei drafod: - Beth mae'r cyflwyniad hwn yn ei gynnwys? - Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif? - Beth mae'r prosiect yn ei gynnwys? - Gyda phwy arall rydyn ni'n siarad? - Sut gallwch chi leisio eich barn? - Pam ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n clywed eich barn? - Pam ei bod ni am gynnwys y prosiect? - A fydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill? - Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel... - Addysg ac Ansawdd - Llywodraethu a Staffio - Cyllid - Yr Iaith Gymraeg - Taithio a'r Anglychedd - Cydraddoldebau - Cyfeusterau Arbenigol ac Angherion Dysgu Ychwanegol - Y Gymuned - Beth fydd y manteision a'r anfantelision? - A oes unrhyw risgiau? - Pam dewis y prosiect yma? - Am ba mor hir y byddwn ni'n casglu barn pob? - Beth fydd yn digwydd nesa?
---	---	---

Fideo Ymgynghori

Mae'r Cyngor yn cydnabod potensial pobl ifanc i gyfoethogi'r prosesau penderfynu, rhannu ffyrdd o edrych ar faterion a chymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.



Yng nghyswllt hynny felly, wrth baratoi'r Pecynnau Ymgynghori, bu disgyblion o'r ysgol yn cyfrannu at y cynnwys ac yn cymryd rhan yn y fideo ymgynghori. Trwy sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan, cafodd y plant gyfle i'w llais gael ei glywed ac i gyfranogi mewn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg a'u llesiant.

Mae recordiad ar gael ar YouTube:

[Ymgynghori Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cwm Gwyddon](#)

Cyngor Ysgol / Ymgysylltiad Disgyblion

Bydd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerffili'n sicrhau bod trefniadau addas yn bodoli ar gyfer ymgynghori a chael disgyblion i gymryd rhan trwy gydol y broses wrth ddod ag unrhyw gynnig ymlaen.

Yn y ddogfen ymgynghori gyntaf, fe ystyriwyd cynnal sesiwn ymgynghori rithiol gyda chynrychiolwyr o'r ysgolion yr oedd y cynnig yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, ar ôl trafod gyda'r prifathrawon perthnasol a thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, penderfynwyd y dylai'r staff dysgu lleol ymgysylltu gyda phob grŵp blwyddyn, yn hytrach na sampl cynrychioliadol yn unig. Defnyddiwyd fersiwn addas i blant o'r ddogfen ymgynghori a'r fideo i gyd-fynd â hynny, ac anogwyd plant i ymgysylltu mewn amgylchedd oedd yn gyfarwydd iddynt, ar y lefel briodol o ddealltwriaeth ac yn eu dewis iaith. Oherwydd y sefyllfa o ran 'swigod' mewn ysgolion ar y pryd, teimlwyd mai dyma oedd y ffordd orau i sicrhau gymaint o farn ac ymateb â phosib gan y disgyblion.

Cafwyd sylwadau oddi wrth lawer o'r plant o ran beth fyddent yn dymuno'i weld yn y dyfodol a sut roeddent yn teimlo am y cynnig. Cafodd nodiadau o bob sesiwn eu cofnodi, ac maent wedi'u cynnwys fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghori a fydd ar gael i'r Cabinet. Rhoddir amlinelliad isod o'r cwestiynau a godwyd gan ddisgyblion yn ystod y sesiynau hyn:

- Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni

Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon	
Cwestiynau	Ymateb y Cyngor
Pa bryd bydd y prosiect yn barod?	Mae bwriad i'r Ysgol agor ym mis Medi 2023

Pa gyfleusterau ychwanegol fydd gan yr ysgol?	Bydd gan yr adeilad newydd ddarpariaeth gynradd i 420 o ddisgyblion, 60 o lefydd meithrinfa a Chanolfan Adnoddau Arbennig. Bydd gan y brif ysgol ystafelloedd dosbarth, prif neuadd ymgynnull, lle ar gyfer technoleg bwyd, llyfrgell a lle technoleg gwybodaeth.
A fydd yr ysgol yn cael ei galw'n Cwm Gwyddon?	Bydd, nid oes gennym unrhyw fwriad i newid yr enw fel rhan o'r cynnig hwn.
A fydd y wisg ysgol yn newid?	Bydd hyn yn fater i gorff llywodraethu'r ysgol ei benderfynu.
A fydd yna blant hŷn yn yr ysgol hon, fel sydd yn ysgol Cwm Rhymni	Na fydd, y bwriad yma yw cael plant o'r un oed (3-11 oed).
A fydd angen i ni rannu toiledau gyda phlant iau?	Bydd gan yr ysgol newydd doiledau mewn gwahanol rannau ohoni, sy'n addas i'r gwahanol oedrannau yn yr ysgol.
Fydd angen i ni fwyta ein brechdanau yn yr ystafell ddosbarth?	Mater i bennaeth yr ysgol fydd penderfynu ar hynny.
A fyddwn ni'n cael ystafell goginio er mwyn cael sesiynau coginio a dysgu am fwyd iach fel sy'n digwydd ar hyn o bryd pan ddaw Richard Shaw o Coginio da'n Gilydd atom ni?	Nid yw dyluniad yr ysgol tu mewn wedi cael ei orffen hyd yma. Ond mae'r dyluniad sydd gennym ar hyn o bryd yn cynnwys lle ar gyfer Technoleg Bwyd, sy'n debyg i beth sydd yn Ysgol Idris Davies.
A fyddwn ni'n cael stiwdio dawns a stiwdio gerdd er mwyn cael gwersi dawns a chymryd rhan mewn cystadlaethau dawns fel yn yr Urdd?	Na, does dim stiwdio felly yn y dyluniad, ond bydd neuadd fwy o faint ac addas i'r diben yna ar gael.
A fydd yno iard ar wahân i bob blwyddyn?	Na, nid ar gyfer pob blwyddyn, ond bydd ar gyfer y cyfnodau allweddol.
A fydd yr ysgol newydd yn agosach at gaeau chwarae?	Bydd caeau chwarae yn agos at yr ysgol.
A fydd gan yr ysgol newydd gae chwarae pêl-droed/rygbi?	Ni fydd un yn arbennig i'r ysgol ond efallai cewch ddefnyddio un.
A fydd gan yr ysgol newydd ystafelloedd newid?	Bydd gan yr ysgol newydd ystafell gotiau unigol ar gyfer pob dosbarth. Ac mae'r dyluniad yn cynnwys dwy ystafell newid fechan wrth ymyl y Neuadd.



Ystyriaethau Eraill



"Ein cenhadaeth genedlaethol yw codi safonau, lleihau y blwch cyrhaeddiad a chyflenwi system addysg sy'n destun balchder a hyder cenedlaethol."

*Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg*

Wrth i Gymru gychwyn ar weledigaeth newydd o lwyddiant i bob dysgwr, gallwn fyfyrrio ar ein treftadaeth gyfoethog a'n hanes balch wrth hyrwyddo mynediad i addysg yng Nghaerffili. Mae ein diwygiadau trawsnewidiol yn digwydd mewn amgylchedd heriol. Mae hyn yn cynnwys yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit, y trawsnewid technolegol a'r dargyfeiriad yn y systemau cymwysterau ledled gwledydd y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain i gyd yn heriau ac yn gyfleoedd i'r Cyngor.

Mae yna nifer o strategaethau lleol a chenedlaethol sy'n gyrru diwygiadau Addysgol ac sy'n tanlinellu'r rhesymeg dros ystyried y cynigion fel rhan o raglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yng Nghaerffili.

- [Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 / Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2017](#)
- [Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 \(Asesiadau Awdurdod Lleol\) \(Cymru\) 2016](#)
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)
- [Llywodraeth Cymru – Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl](#)
- [Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2019- 2021](#)
- [Llywodraeth Cymru – Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif](#)
- [Caerffili - Uchelgeisiau a Rennir Strategaeth Cyflawniad Addysg 2019 - 2022](#)
- [Caerffili – Strategaeth Trawsnewid 'Tîm Caerffili': Yn Well Gyda'n Gilydd](#)
- [Caerffili – Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cynllun](#)
- [Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022](#)
- [Caerffili - Cynllun Corfforaethol \(yn cynnwys Amcanion Lles 2018-2023\)](#)
- [Caerffili - Strategaeth Addysg Heblaw am yr Ysgol \(EOTAS\) 2020](#)
- [Caerffili - Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#)
- [Caerffili - Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022](#)



Camau Nesaf

Argymhelliad

Wrth adolygu'r cynnig i ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod ymlaen trwy'r ymgynghori ac wrth ystyried yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned a threfniadau teithio, argymhelliad yr adroddiad hwn yw bod y cynnig yn cael ei symud ymlaen fel yr amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori:

Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn ysgol bwrpasol darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w lleoli ar safle gwag hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn i gynnwys darpariaeth Gofal Plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig

Gwneud Penderfyniad

Er mwyn cyflawni ein diwygiadau ar draws y system gyfan, bydd angen ymrwymiad mentrus arnom i gydweithredu effeithiol ynghyd ag integreiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysg ehangach, ein partneriaid allweddol mewn awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, gwasanaethau rhanbarthol, Estyn ac eraill. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn llwyddiannus yn gofyn am ymgysylltiad effeithiol a gonest rhwng pob agwedd ar y system addysg a'n cymunedau lleol ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r amodau er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

Gofynnir i Aelodau'r Cabinet nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgynghori hwn a cheisio barn aelodau ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu beidio bwrw ymlaen â'r cynnig mewn perthynas â'r cynnig i adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi sy'n darparu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol yn cael cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig a'u hanfon at y Cyngor o fewn y cyfnod o 28 diwrnod.

Yna bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad Statudol mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn darparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny o fewn 7 diwrnod neu'r diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Achos Busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Weinidog Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol a bydd y gwaith yn cychwyn.



Gwybodaeth Gefnogol

Atodiad 1 :

[Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori](#)

[Cwestiynau Cyffredin i'r Ymgynghori](#)

[Fideo Ymgynghori](#)

[Asesiad o'r Effaith ar Cydraddoldeb a'r Gymraeg](#)

Atodiad 2:



14.10.20 Estyn
response to YSGOL G

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn ysgol bwrpasol darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w lleoli ar safle gwag hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Cyflwyniad

Mae hwn yn gynnis ymgynghorol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Y cynnig yw adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i ysgol newydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a fydd wedi'i lleoli ar safle gwag hen Ysgol Uwchradd Cwm-carn. Bydd y ddarpariaeth newydd yn cynnwys cyfleusterau gofal plant, meithrinfa a chanolfan adnoddau arbenigol.

Crynodeb/ Casgliad

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal, o leiaf. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi rhoi digon o eglurder ynglŷn â lliniaru yn unol â risg y cynnig yn cynhyrchu nifer sylweddol o leoedd dros ben ar safle'r ysgol newydd.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg briodol ar gyfer y cynnig, sef disodli'r ysgol bresennol sydd ar safle lle mae adeiladau mewn cyflwr gwael. Mae hyn hefyd er mwyn bodloni'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Yn ychwanegol, mae'r cynigiwr yn bwriadu darparu adnodd Cymraeg ar gyfer y plant hynny y mae angen darpariaeth arbenigol y tu allan i ysgol brif ffrwd arnynt. Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth resymol i fanteision posibl cael ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd. Mae'r rhain yn cynnwys darparu ystafelloedd dosbarth, cyfleusterau TG ac ardaloedd chwarae allanol modern. Nod y cynnig yw darparu adeilad ar gyfer tua 420 o ddisgyblion, yn ogystal â 60 o leoedd meithrin, ac 16 o leoedd yn y ganolfan adnoddau arbenigol. Fodd bynnag, rhagamcenir y bydd galw am 212 yn unig o leoedd i ddisgyblion, ac eithrio'r meithrin, ar safle'r ysgol bresennol yn 2025. Mae hyn yn gadael nifer sylweddol o leoedd dros ben yn yr ysgol. Mae'r cynigiwr wedi ceisio lliniaru hyn trwy gynnwys amcanestyniadau diwygiedig ar gyfer y safle newydd, ac mae'n ymddangos bod y rhain yn dangos y bydd gan yr ysgol 420 o ddisgyblion erbyn 2025. Nid yw'n glir sut

mae'r cynigiwr wedi cyfrifo'r nifer hon, ac mae'n ymddangos yn rhy uchelgeisiol. Nid yw'r cynigiwr wedi lliniaru yn unol â'r risg hon o gael nifer sylweddol o leoedd dros ben yn yr ysgol. Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i bum opsiwn gwahanol, ac wedi rhoi sgôr i'r rhain yn unol ag amrywiaeth o ffactorau llwyddiant allweddol. Yr opsiwn â'r sgôr uchaf yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer yr awdurdod lleol ar hyn o bryd. Pennodd y cynigiwr yn briodol mai'r cynnig hwn oedd yn rhoi'r cydbwysedd gorau o ran costau, manteision a risgiau. Mae'r cynigiwr wedi pennu bod y ddarpariaeth newydd yn llai na milltir oddi wrth y safle presennol. Mae'n rhagweld mai bach iawn fydd effaith debygol gwahanol drefniadau teithio o ganlyniad i'r cynnig. Gallai rhai disgyblion fod yn byw'n agosach at safle'r ysgol newydd, a disgyblion eraill yn byw ymhellach oddi yno. Mae'n cyfeirio at bolisi cludiant Caerffili sy'n darparu cludiant i'r ysgol 'berthnasol' o fwy na phellter o 1.5 milltir ar gyfer disgyblion cynradd. Mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili, yn benodol i ddatblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg yn ardal Dwyrain Islwyn. Mae'r cynnig hwn yn gysylltiedig ag ardal Dwyrain Islwyn. Mae'r cynigiwr wedi darparu asesiadau addas o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig. Mae'r cynigiwr yn ystyried y bydd nifer o'r gweithgareddau presennol y mae'r ysgol yn cefnogi'r gymuned i ymgymryd â nhw yn parhau yn y lleoliad newydd. I grwpiau nad ydynt yn gallu teithio'r pellter ychwanegol, mae'r cynigiwr yn bwriadu darparu cyfleusterau yn y llyfrgell leol wedi'u seilio yn y gymuned, neu ystyried cefnogi lleoliadau eraill, lle bo'n briodol. Hefyd, mae'r cynigiwr yn haeru y bydd y cynnig yn cryfhau ac yn diogelu hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Gymreig yn y gymuned.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried adroddiad arolygu diweddaraf yr ysgol gan Estyn ac wedi cymharu hwn ag ysgolion lleol eraill yn yr ardal. Mae'n dod i'r casgliad rhesymol nad yw'n disgwyl y bydd effaith niweidiol ar safonau'r ddarpariaeth a chyrhaeddiad. Hefyd, mae'n awgrymu y bydd y wybodaeth a amlinellir yn y cynnig yn dangos sut gall yr ysgol barhau i ddatblygu eu harfer ragorol bresennol, ac adeiladu ar hyn.

Cafodd yr ysgol farnau rhagorol i gyd yn ei hadroddiad arolygu ym mis Mawrth 2020. Mae'r cynigiwr yn haeru y bydd yr ysgol yn parhau i gael cyngor a chymorth parhaus gan yr awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion ac unrhyw randdeiliaid perthnasol yn ystod cyfnod gweithredu'r cynnig, i helpu sicrhau bod yr ysgol yn cynnal arweinyddiaeth effeithiol, ac yn darparu addysgu a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion. Mae'n ymddangos bod hwn yn haeried rhesymol.

Mae'r cynigiwr wedi darparu dogfen asesu cydraddoldeb, ac mae'n ymddangos bod y ddogfen hon yn cwmpasu'r holl feysydd perthnasol, gan gynnwys gwneud yr adeiladau newydd yn gyfleuster hygyrch sy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw un ag anghenion ychwanegol.

Mae'r cynigiwr yn haeru'n rhesymol, gan mai'r cynnig yw adeiladu cyfleuster ysgol newydd mewn lleoliad arall yn lle lleoliad yr ysgol bresennol, na fydd unrhyw darfu ar ddisgyblion yn ystod y cyfnod adeiladu. Yn ychwanegol, ni fydd unrhyw broblemau yn gysylltiedig â chludo na mynediad, gan y bydd y gwaith adeiladu yn digwydd oddi ar y safle presennol.

Atodiad 3:

Ymatebion i'r Ymgynghori

Bydd Atodiad ar wahân i'r adroddiad hwn ar gael i'r Cabinet a fydd yn cynnwys manylion llawn y sylwebaeth a ddarperir gan ymgynghoreion yn ystod y broses ymgynghori. Bydd unrhyw wybodaeth adnabod yn cael ei dileu fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen hon.